

## PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2021.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) ac L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

### 347 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan H. Gapper (Addysg Gymraeg).

### 348 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 2021 a'r cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

### 349 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### 350 CYFLWYNIAD: BIG FRESH CATERING COMPANY –

Rhoddodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau gyflwyniad PowerPoint am Gwmni Arlwygo Big Fresh. Daeth Rheolwr-Gyfarwyddwr y Cwmni ato. Yr oedd y cyflwyniad yn ymdrin â'r canlynol:

- Cefndir cychwyniad y prosiect yn 2015.
- Blaenoriaethau.
- Llywodraethiant a strwythur y Bwrdd.
- Cynllunio Busnes a dysgu gweithgareddau busnes newydd.
- Y diwylliant yng Nghwmni Arlwygo Big Fresh.
- Gweithgareddau ymwneud.
- Effaith Covid a rhai o'r newidiadau megis cyflwyno system talebau.
- Datblygu a chefnogi'r staff.
- Caffi Pafiliwn Penarth.

- Canlyniadau ariannol a gwerthiannau am y cyfnod 26 Mawrth i 31 Awst 2021.
- Gwerth a ychwanegwyd o'r ffordd newydd o weithio megis:
  - creu 20 o swyddi newydd ers Medi 2019
  - bwydlenni newydd i adlewyrchu deddfwriaeth newydd (Cyfraith Natasha)
  - Rhaglenni ymwneud gyda disgyblion a rhieni
  - Mwy o wariant ar gynhwysion a dewisiadau
- Rhaglen fuddsoddi'r Cwmni gan gynnwys
  - £255k o daliad i ysgolion a godwyd trwy elw'r Cwmni
  - £60k i brosiectau cymunedol
  - £5k i Gronfa'r Dinasyddion Da
  - £88k i brynu cynhwysion o ansawdd well
  - £113k ar gyfer gweithrediadau a datblygu
- Cyfrif am y prosiectau a gyllidwyd megis Hybiau Lles a Chlybiau Cyfoethogi Ôl-Ysgol.
- Blaenoriaethau'r ysgolion megis Arlwyo Heb Arian a bwydlenni newydd.
- Datganiad Cenhadaeth y Cwmni.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, gyda chaniatâd i siarad, y staff ar eu llwyddiant ysgubol a nodi mor llwyddiannus y bu caffi Pafiliwn Penarth. Ychwanegodd fod Archwilio Cymru wedi ymweld â'r caffi a dweud fod y prosiect arlwyo yn rhywbeth y dylid ei rannu gydag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Dywedodd yr Aelod Cabinet hefyd nad oedd diffyg yng nghyllideb y gwasanaeth arlwyo, dim ond gwarged, a bod buddion hyn yn cael eu pasio ymlaen i'r ysgolion.

Diolchodd y Cynghorydd N.C. Thomas i'r staff am eu hymdrechion ac am lwyddiant y prosiect. Cytunodd, gan mai ffordd newydd o weithio oedd hyn y dylid rhannu'r model a'i fabwysladau mewn rhannau eraill o Gymru.

Holodd y Cynghorydd S.D. Perkes a oedd cynlluniau i'r cwmni ehangu i rannau eraill o'r Fro. Holodd hefyd a oedd y cwmni yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael profiad gwaith. Atebodd Rheolwr-Gyfarwyddwr Cwmni Arlwyo Big Fresh fod awydd i ehangu, ond fod telerau'r cytundeb cyfreithiol yn golygu ar hyn o bryd na allai'r Cwmni ond masnachu 20% o gyfanswm yr enillion o'r prydau ysgol. Y gobaith oedd y gellid newid model busnes y Cwmni fel y gallent fasnachu mwy a cheisio mwy o gyfleoedd masnachol.

O ran profiad gwaith, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cyfleoedd yn cael eu darparu: er enghraifft, y mae Ysgol Uwchradd Pencoedre yn cynnig cynllun i rai o'i disgyblion.

Yn gyffredinol, yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i fynegi eu diolch i'r holl staff oedd yn rhan o hyn.

Gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys y cyflwyniad a rhoi diolch i'r staff.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod a throsglwyddo diolch a gwerthfawrogiad y Pwyllgor am holl waith caled y staff.

351 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2020/21 (CYF) –

Cafodd y cyfeiriad o'r Cabinet ar 7 Mehefin, 2021 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda, i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu. Yr oedd Adroddiad Blynyddol 2020/21 yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau Diogelu Corfforaethol oedd yn digwydd ar draws yr Awdurdod Lleol.

Yna, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, wedi ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad a'r holl oblygiadau oedd ynddo,

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi cynnwys yr adroddiad.
- (2) Bod llongyfarchiadau'r Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i staff am yr holl waith a wnaed.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad Diogelu Corfforaethol.
- (2) I gydnabod gwaith caled ac ymroddiad y staff.

352 DEFNYDD AC EFFAITH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION YN YSGOLION BRO MORGANNWG (CDS) –

Cyflwynodd y Prif Bartner Gwella (Consortiwm Canol y De) yr adroddiad oedd yn crynhoi canfyddiadau trafodaethau a gynhaliwyd rhwng partneriaid gwella o Gonsortiw Canol y De ac arweinwyr ysgolion ym Mro Morgannwg o ran defnydd ac effaith y Grant Datblygu'r Disgyblion (GDD).

Amlinellodd yr adroddiad drafodaethau a gynhaliwyd gydag arweinwyr ysgolion ynghylch y canlynol:

- sut y defnyddid y grant mewn ysgolion;
- sut yr oedd ysgolion yn monitro effaith y grant;
- cynaliadwyedd mentrau a gefnogwyd gan y grant;
- gwersi proffesiynol cysylltiedig â'r grant;
- addasiadau a wnaed i'r grant yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21;
- effaith ar ddisgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim (cPYaDd);
- prif bryderon ynghylch disgyblion cPYaDd yn dilyn y cyfnod clo a sut y bwriadau ysgolion ymdrin â'r pryderon hynny.

Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o esiamplau byr o'r modd yr oedd ysgolion ym Mro Morgannwg yn defnyddio'r grant GDD a'i effaith ar ddysgwyr.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Pwyllgor hefyd Mr J. Welch, yr Arweinydd Strategol dros Gydraddoldeb a Lles (Consortiwm Canol y De), Mr L. Humphreys, Pennaeth Ysgol Uwchradd Pencoedtre, Dr. V. Browne (Pennaeth Gweithredol

Ysgolion Uwchradd Whitmore a Phencoedtre), Mrs. J. Hayward, Pennaeth Gweithredol Ysgolion Cynradd Tregattwg ac Oakfield a Mrs R. Milton, Ysgol Gynradd Tregattwg.

Gwahoddwyd Mrs. Hayward a Mr. Humphreys i ddarparu esiamplau o ddefnydd ac effaith y GDD yn Ysgolion Cynradd Tregattwg ac Oakfield ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- Byddai arian y grant yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dysgwyr i wella'u hiaith a'u lleferydd, darllen, i leihau costau teithiau, rhoi cymorth ariannol gyda gwisg ysgol, helpu i dalu am brydau a rhoi cymorth i gwrdd ag anghenion lles emosiynol y disgyblion.
- Defnyddiwyd y GDD i dalu am gyflogi Cymorthyddion Cefnogi Dysgu (CCD) fyddai'n gweithio gyda phlant oedd angen cefnogaeth ychwanegol.
- Elfen bwysig o waith y CCD oedd ymwneud â'r Agwedd Seiliedig ar Drawma at ddysgu er mwyn cefnogi'r plant hynny a ddioddefodd oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol.
- Defnyddiwyd y GDD i sicrhau bod y cwricwlwm yn gyffrous i blant er mwyn eu hannog i ddysgu a dod i'r ysgol.
- Yr oedd arian GDD yn galluogi ysgolion i gwrdd ag anghenion emosiynol plant trwy gyflwyno gweithgareddau neu brosiectau fyddai'n gwneud dod i'r ysgol yn fwy o hwyl. Yr oedd hyn yn cynnwys talu am deithiau preswyl fyddai'n rhoi cyfleoedd a phrofiadau i blant na fuasent fel arfer yn gallu eu cael.
- Darparwyd cymorth ariannol i wella cyfleoedd digidol.
- Yr oedd y GDD yn galluogi ysgolion i ganolbwyntio ar y gymuned, fel bod modd gweithio gyda theuluoedd i helpu gyda lles, maethiad ac ymddygiad y disgybl. Byddai'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys cyfeirio teuluoedd at rwydweithiau cefnogi eraill fel yr Undeb Credyd.
- Ystyriwyd y byddai ymestyn y diwrnod ysgol i ddarparu gwersi a gweithgareddau y tu allan i oriau yn ffordd bwysig o roi cyfleoedd i ddisgyblion o gefndir llai ffyniannus.
- Caniataodd y GDD ysgolion i fabwysiadau agwedd flaengar at ddysgu. Er enghraifft, yr oedd Ysgol Gynradd Oakfield wedi creu canolfan siopa a rhannu oedd yn darparu cefnogaeth ynghylch coginio a chwrdd â gofynion dietegol.
- O ran lleihau'r rhwystrau i bresenoldeb, yr oedd hyn yn rhoi cyfleoedd hyfforddi i'r staff a helpu i ofalu bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel wrth ddod i'r ysgol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd N.C. Thomas at heriau yn ymwneud â disgyblion oedd â phresenoldeb isel, a holodd a oedd y disgyblion yn awyddus i ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnod maith i ffwrdd oherwydd Covid. Atebodd Mr. Humphreys mai'r farn gyffredinol oedd na allai disgyblion Ysgol Uwchradd Pencoedtre aros i ddychwelyd i'r ysgol yn y cnawd. Ychwanegodd nad oedd hyn yn golygu nad oedd sawl her gyda disgyblion yn gweithio mwy o gartref, megis peidio bod â desg, neu fywyd y teulu o'u cwmpas. Cytunodd Mrs. Hayward gyda'r sylwadau hyn a dywedodd fod y disgyblion ar y cyfan wrth eu bodd yn cael dychwelyd i'r ysgol, ond i rai, eu dewis fyddai cymysgedd o weithio gartref a mynd i'r ysgol. Gwnaeth hyn i'r ysgolion gwestiynau'r ffordd o strwythuro'r diwrnod ysgol. Yr oedd cyfnod Covid hefyd wedi caniatau i ysgolion adfyfrio ar ffyrdd i ymwneud â rhieni, felly yr oedd gwell dulliau electronig yn awr yn fwy cyffredin, megis cyfryngau cymdeithas a gwefan Seesaw. Yr oedd hyn wedi chwalu rhai rhwystrau. Yn dilyn y pwyntiau hyn, dywedodd Mr. Welch fod

presenoldeb yn dal yn broblem, a soniodd am yr heriau ynghylch dychwelyd i'r ysgol a mabwysiadu pecyn dysgu mwy cyfun a gweithio o gartref. Felly, yr oedd gwaith y Swyddogion Ymwneud Teuluoedd yn hanfodol. Ychwanegodd Mrs. Hayward fod swydd-ddisgrifiad Swyddog Ymwneud Teuluoedd ei hysgolion hi wedi ei ddatblygu i adlewyrchu yn well yr heriau cyfredol a'r set sgiliau sydd eu hagen i ateb yr heriau hynny.

Holodd y Cynghorydd S.D. Perkes a fyddid yn dal ati gyda'r dulliau a ddatblygwyd yn ystod pandemig Covid i gyfathrebu â rhieni. Cadarnhaodd Mrs. Hayward y byddai hyn yn digwydd, ond mai'r her oedd adeiladu arnynt i nodi'r ffordd orau o gyfathrebu gyda phob set o rieni iddynt ymwneud yn well â'r athrawon.

Holodd y Cynghorydd Perkes hefyd sut y byddai disgyblion cPYaDd yn cael eu cefnogi i wella wedi iddynt adael yr ysgol. Atebodd Dr. Browne mai ei farn ef oedd bod angen newid yn y dull o asesu plant, yn enwedig ynghylch arholiadau gan nad oed dy rhain yn dwyn y gorau allan o bob myfyriwr. Roedd angen i ysgolion hefyd ddymchwel rhwystrau i ddysgu er mwyn ymateb yn well i anghenion unigol disgyblion. Dyma oed dy prif reswm y tu ôl i'r diwrnod ysgol estynedig a mwy o weithgareddau y tu allan i oriau ysgol er mwyn gwella'r profiadau a'r cyfleoedd i ddisgyblion cPYaDd. Byddai hyn yn arwain at well defnydd o amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol.

Gwnaeth y Cynghorydd R.M. Birch sylw ar rôl athrawon, gyda phwyslais cynyddol ar fod yn weithiwr cymdeithasol. Yr oedd wedi rhyfeddu felly o weld cymaint o waith yr oedd y staff yn wneud er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael profiad cyson a rheolaidd yn yr ysgol, ond teimlai ar yr un pryd y byddai hyn yn arwain at angen i ailwampio swydd-ddisgrifiadau athrawon. Ni fyddai'r cyhoedd yn wastad yn cydnabod ymroddiad staff ysgolion, felly yr oedd hi am dalu teyrnged i'w gwaith caled a'u hymroddiad. Wrth ymateb i'r sylwadau hyn, cytunodd Mr. Welch y byddai'n rhaid newid y ffordd o baratoi athrawon at yr heriau oedd o'u blaenau. Cyfeiriodd at yr agwedd o gymuned yr ysgol gyfan, oedd yn tyfu, ond a ddylai arwain at well ymwneud â'r rhieni. Ychwanegodd fod trafodaethau'n digwydd yn Llywodraeth Cymru am wneud i ffwrdd â'r GDD. Yr oedd Consortiwm Canol y De felly yn ceisio cyfleu'r neges i Lywodraeth Cymru am ba mor werthfawr yr oedd y GDD, a pha mor fawr y byddai'r effaith ar ysgolion pe cymerid ef i ffwrdd.

Gan nad oedd mwy o sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) Dylid nodi canfyddiadau'r adroddiad ynghylch defnydd ac effaith y Grant Datblygiad Disgyblion yn ysgolion Bro Morgannwg.
- (2) Cydnabod y gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a sut mae hyn yn parhau i gael ei addasu mewn ymateb i bandemig Covid-19.
- (3) Bod pob ysgol ym Mro Morgannwg yn cael ei chanmol am yr holl gefnogaeth a chymorth a roddir i ddisgyblion a rhieni yn ystod cyfnod pandemig Covid-19.

## Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Wrth gydnabod y gefnogaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu mae'r Awdurdod Lleol ac ysgolion wedi darparu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a sut mae'r ddarpariaeth wedi'i haddasu yn ystod y pandemig.
- (3) Canmol pob ysgol ym Mro Morgannwg am y gefnogaeth a'r cymorth a roddwyd i ddisgyblion a rhieni yn ystod pandemig Covid-19.

### 353 DIWEDDARIAD ADDYSG GARTREF DEWISOL (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Cynhwysiant yr adroddiad oedd yn dweud fod gan Fro Morgannwg (BM) fel pob Awdurdod Lleol (ALI) oblygiadau tymor-hir i wneud yn siŵr fod pob plentyn o oed ysgol yn derbyn addysg addas a llawn-amser yn yr ysgol neu fel arall.

Gwelodd BM, ynghyd â phob ALI arall, bron, yng Nghymru, gynnydd sylweddol yn nifer y rhieni oedd yn dewis addysgu gartref dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd llawer o ddata cymharol ar gael, ac yr oedd ei ddefnydd yn gyfyngedig. Dengys data Dewis Addysgu Gartref (DAG) BM isod gynnydd dros amser, sydd wedi parhau i godi hyd yn oed ers i'r ysgolion ail-agor ym mis Ebrill 2021.

Ionawr 2018	Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021
46 DAG hysbys i'r ALI	76 DAG hysbys i'r ALI	87 DAG hysbys i'r ALI	104 DAG hysbys i'r ALI

Yr oedd niferoedd DAG ym Mro Morgannwg ar sail dyddiad y cyfrifiad, 26 Ionawr 2021, yn 104 o gymharu â 87 y flwyddyn cynt, ond yr oedd y cynnydd hwn o 20% yn gyfradd sylweddol is na'r hyn a brofwyd gan lawer ALI yng Nghymru; 36% oedd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru. Cododd y gyfradd am bob 1,000 disgybl yn y Fro o 4.5 yn 2020 i 5.3 yn 2021 sydd yn cymharu â chynnydd cyfartalog i Gymru o 7 i 9.5. Cyfradd y Fro am bob 1,000 disgybl oedd yr isaf ar y cyd yng Nghymru.

Yn unol â ffocws cynyddol Llywodraeth Cymru (LIC) ar DAG, cymhlethdod cynyddol anghenion dysgwyr DAG (e.e. anghenion ADY) a'r disgwyliadau o ran cefnogaeth i DAG dan grant LIC, yr oedd yr ALI wedi newid y ffordd yr oedd yn cyflwyno ac yn rheoli gwasanaethau DAG. Y mae darparu gwasanaethau cysylltiedig â DAG yn awr yn y tîm Cynhwysiant sydd yn rhoi cefnogaeth a goruchwyliaeth DAG i'r ALI.

Y mae DAG yn ddewis cyfreithiol i rieni, ar yr amod eu bod yn gallu bodloni'r ALI (neu'r llysoedd petaent yn dewis peidio ymwneud â'r ALI) fod yr addysg a ddarperir yn addas, yn effeithlon ac yn llawn-amser. Nid yw'r hawl i addysgu gartref yn hawl sylfaenol ac y mae'n amodol ar y rhieni yn rhoi addysg 'effeithiol' ac 'addas' i'w plentyn. Gall rhieni addysgu eu plentyn gartref os byddant yn ateb rhai gofynion cyfreithiol fel y saif y gyfraith ar hyn o bryd.

Yr oedd LIC wedi cyhoeddi drafft o ganllawiau statudol diwygiedig ar DAG sy'n egluro'r hyn a ddisgwylir yn ehangach o'r ALI o ran monitro a chefnogi darparu DAG. Cyhoeddodd LIC hefyd reoliadau drafft ar gyfer ymgynghori; petai'r rhain yn dod yn ddeddf, byddai dyletswydd ar yr ALI i wneud trefniadau i ganfod pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt yn ddysgwyr cofrestredig mewn ysgol ac sydd heb fod yn derbyn addysg addas. Petae'r rheoliadau yn dod yn ddeddf, byddai gofyn i'r ALI gynnal a llenwi cronfa ddata, Plant yn Colli Addysg (PCA), fyddai'n arwain at fwy o oblygiadau ar bob ALI yng Nghymru i gynnal cronfa ddata weddol gywir o bob dysgwr o oedran ysgol.

Ni ddylai ysgolion na swyddogion yr ALI na gweithwyr proffesiynol eraill annog rhiant i addysgu gartref, gan mai dewis cadarnhaol gan y rhiant ddylai hwn fod. Lle mae rhesymau negyddol dros y penderfyniad, gall swyddogion geisio eiriol dros a chyfyngu rhwng y dysgwyr, rhieni ac ysgolion i weld a oes modd ymdrin ag unrhyw bryderon fel y gallai'r dysgwr aros ar y llyfrau.

Mewn achosion lle tybid fod y ddarpariaeth DAG yn anaddas, byddai'r Tîm Cynhwysiant yn gweithio gyda'r rhieni ac asiantaethau eraill i sicrhau'r 'camau gorau' nesaf er lles y plentyn. Gall hyn arwain at gamau i gyhoeddi Gorchymyn Mynychu Ysgol (GMY) lle gwahoddir y llys i fynnu bod dysgwr yn mynychu ysgol benodol os na fyddai'r rhiant yn gallu rhoi tystiolaeth fod addysg addas yn cael ei ddarparu.

Y mae newidiadau posib yn y dyfodol i bolisi LIC a deddfwriaeth ynghylch DAG a PCA ac effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA) yn debyg o barhau i gynyddu'r hyn a ddisgwylir gan ALI o ran cyflwyno gwasanaethau a chefnogaeth i ddysgwyr DAG.

Yn unol â ffocws cynyddol Llywodraeth Cymru (LIC) ar DAG, cymhlethdod cynyddol anghenion dysgwyr DAG (e.e. anghenion ADY) a'r disgwyliadau o ran cefnogaeth i DAG dan grant LIC, yr oedd yr ALI wedi newid y ffordd yr oedd yn cyflwyno ac yn rheoli gwasanaethau DAG. Y mae darparu gwasanaethau cysylltiedig â DAG yn awr yn y tîm Cynhwysiant sydd yn rhoi cefnogaeth a goruchwyliaeth DAG i'r ALI.

Cyfeiriodd y Cynghorydd N.C. Thomas at y cynnydd cymharol fychan yn nifer y teuluoedd oedd yn dewis addysgu gartref yn y Fro o gymharu â rhannau eraill o Gymru. Holodd a oedd hyn yn adlewyrchiad o ansawdd ysgolion yn y Fro ac a oedd unrhyw wybodaeth am y rhesymau pam fod teuluoedd yn dewis addysgu gartref. Atebodd y Rheolwr Cynhwysiant y byddid yn holi rhieni, yn ystod ymweliad â'r cartref, pam eu bod am addysgu gartref: mater o ddewis y rhieni oedd hyn fel arfer. Hefyd, roedd gofyn i Benaethiaid lenwi ffurflen cyn i unrhyw ddisgybl gael ei dynnu oddi ar lyfrau'r ysgol. Byddai data a gasglwyd o hyn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cymharu, a'r wybodaeth yn cael ei rannu gyda'r Penaethiaid petae'r rhieni yn codi unrhyw bryderon. O ran yr ymholiad hwn, cyfeiriodd y Pennaeth Safonau a Darpariaeth at yr ymwneud llwyddiannus a rhieni a fyddai'n cael gwybod nad oedd hawl awtomatig i'w plentyn gael ei dderbyn yn ôl i ysgol o'u dewis hwy.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

## ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD y cynnydd a wnaed yn y gwasanaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref yn ystod y 12 Mis diwethaf yn cael ei nodi.
- (2) BOD y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant yn derbyn adroddiad diweddarau cynnydd pellach ymhen 12 mis mewn perthynas â'r ddarpariaeth barhaus, a mesurau pellach i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd ac effaith grantiau Addysg Ddewisol yn y Cartref ar gyfer cefnogi dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref.
- (3) BOD y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant, wrth dderbyn yr adroddiad y cyfeirir ato yn Argymhelliad (2) uchod, yn cael ei ddiweddarau ar y cynnydd pellach o ran effaith debygol unrhyw weithredu ar y canllawiau statudol diwygiedig arfaethedig ar Addysg Yn y Cartref a'r rheoliadau drafft arfaethedig sy'n ymgorffori'r gofyniad i Awdurdodau Lleol gynnal cronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg.

### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant o ran y cynnydd wnaed o ran y ddarpariaeth barhaus, a mesurau pellach i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd ac effaith grantiau Addysg Ddewisol yn y Cartref ar gyfer cefnogi dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref.
- (3) Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn parhau i oruchwylio a bod yn ymwybodol o newidiadau parhaus i'r disgwyliadau a'r rhwymedigaethau a osodir ar yr Awdurdod Lleol o ran dysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref a dysgwyr y gellir eu categoreiddio fel PCA ac yn colli eu hawl at addysg.

## 354 DIWEDDARIAD ADDYSG AR RAGLEN AILSEFYDLU SYRIA (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Grwpiau Bregus yr adroddiad a ddywedodd fod rheidrwydd ers amser ar Fro Morgannwg (BM), fel pob Awdurdod Lleol (ALI), i sicrhau fod pob plentyn o oedran ysgol yn derbyn addysg addas a llawn-amser mewn ysgol neu fel arall, gan gynnwys y sawl oedd yn rhan o'r Rhaglen Adsefydlu Syriaid (RhAS).

Eleni, yr oedd grant Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig, a Sipsiwn, Roma a Theithwyr (MEAGRT) yn cael ei ddarparu eto i bob ALI a byddai BM yn parhau i ddarparu a chreu cefnogaeth ac adnoddau arbenigol i ddysgwyr RhAS.

Yr oedd y Tîm Grwpiau Bregus (TGB) wedi gwella'r gefnogaeth i ddysgwyr RhAS dros y 12 mis diwethaf trwy ddarparu cefnogaeth a chymorth wedi ei dargedu i ysgolion gyrchu arian ychwanegol gan y Swyddfa Gartref.

Ers dechrau'r RhAS ym mis Ebrill 2016, y mae'r Fro wedi croesawu cyfanswm o 15 teulu: 11 o deuluoedd gyda phlant o oed ysgol a phedwar teulu gyda phlant dan oed ysgol. Adsefydlwyd un teulu dan y Rhaglen Noddi Gymunedol o'r enw Croeso



Penarth. Mae'r TGB hefyd yn cysylltu â'r Cydlynnydd Adsefydlu RhAS a Chroeso Pen-y-bont yng nghyswllt teulu newydd sydd i gyrraedd yn hydref 2021.

Pan fyddant yn cyrraedd, mae'r dysgwyr yn gorfod ymaddasu i ysgolion newydd dan amgylchiadau heriol. I hwyluso hyn, bydd y TGB yn cysylltu ag athrawon dosbarth ac aelodau eraill o staff yr ysgol i drafod anghenion academaidd, cymdeithasol ac emosiynol pob disgybl, ynghyd â'u teuluoedd, a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Roedd dysgwyr a dargedwyd o'r RhAS yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi eu cefnogi'n uniongyrchol gan y TGB. Yr oedd y gefnogaeth hon yn cynnwys ymyriadau llythrennedd dwys, gan gynnwys Saesneg (darllen trwy WhatsApp, FaceTime ac adnodd llythrennedd ar-lein 'Giglets') yn ystod cyfyngiadau Covid 19 er mwyn gofalu bod y dysgwyr yn parhau i wella eu llythrennedd.

Llwyddodd yr holl ddysgwyr a dargedwyd o'r RhAS i gynnal eu lefelau cwricwlwm Cenedlaethol a darllen i'r hyn oeddent cyn cyfyngiadau Covid 19. Yr oedd yr holl ddysgwyr RhAS a dargedwyd wedi gwella eu Saesneg yn y cyfnod medr Newydd i Saesneg. Parhaodd dysgwyr a dargedwyd o RhAS yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 i dderbyn cefnogaeth yn ystod cyfyngiadau Covid 19, yn uniongyrchol ac mewn amser gwirioneddol trwy Google classroom. Gwellodd cywirdeb darllen a deall yr holl ddysgwyr RhAS a dargedwyd yn CA3 a CA4 o 12 mis o leiaf (asesiadau gwaelodlin YARC Medi 2019 ac ail-aseswyd ym Medi 2020).

Cafodd dau ddysgwr RhAS ym Mlwyddyn 10 ganlyniadau TGAU yn 2020.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

**ARGYMHELLWYD –**

- (1) BOD y cynnydd a wnaed yng nghylch gwaith addysg y Rhaglen Ailsefydlu Syriaid (RAS) yn ystod y 12 mis diwethaf yn cael ei nodi.
- (2) BOD y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant yn derbyn adroddiad diweddarau cynnydd pellach ymhen 12 mis mewn perthynas â'r ddarpariaeth barhaus, a mesurau pellach i godi ymwybyddiaeth o ddefnydd ac effaith grantiau Cyrhaeddiad Ethnig Lleiafrifol a Sipsiwn a Theithwyr Roma ar gyfer cefnogi dysgwyr RAS.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Sicrhau bod Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn parhau i oruchwylio a bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau parhaus a osodir ar yr Awdurdod Lleol o ran dysgwyr RAS.

**355 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL:  
PERFFORMIAD CHWARTER 1 2021/22 (CDS) –**

Yr oedd yr adroddiad perfformiad yn dangos cynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (1 Ebrill i 30 Mehefin 2021) tuag at gyrraedd ymrwymadau'r Cynllun Cyflwyno

Blynyddol (2021/22) fel y maent yn asio gydag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Gwnaeth y Cyngor gynnydd cadarnhaol o ran cyflwyno ei ymrwymadau yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt y Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22). Cyfrannodd y perfformiad hwn at statws Gwyrdd cyffredinol i'r Cynllun yn Chwarter 1 (Ch1).

Rhodddwyd statws perfformiad Gwyrdd i bedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 oedd yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Yr oedd hyn yn gadarnhaol, o gofio'r heriau cyson oedd yn codi yn sgil y pandemig.

Neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 97% (306 o 315) o'r gweithgareddau cynlluniedig a amlinellwyd yng Nghynllun Cyflwyno Blynyddol y Cyngor, sydd yn adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y Chwarter; cafodd 1% (2) statws Oren a neilltuwyd statws Coch i 2% (7) o weithgareddau cynlluniedig.

O'r 7 gweithred a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y Chwarter, yr oedd 29% (2) yn ganlyniad uniongyrchol i fesurau ail-flaenoriaethu gwasanaethau mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19. Yng nghyswllt y meysydd hyn, yr oedd gwaith yn awr yn ail-gychwyn, lle'r oedd hynny'n briodol, fel rhan o gynlluniau a strategaeth adfer y Cyngor. Yr oedd hynt y cynnydd yng nghyswllt adfer o'r Coronafeirws yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn yr adroddiad perfformiad i'r Pwyllgor Craffu, gan ganolbwyntio ar amlygu materion perthnasol i gylich gorchwyl y Pwyllgor. Yr oedd y diweddariad hwn am adfer o'r Coronafeirws yn rhan o'r adrodd chwarterol am berfformiad er mwyn gwneud yn siŵr fod yr Aelodau yn cadw trosolwg o faterion adfer fyddai'n cael effaith ar waith eu Pwyllgorau. O'r safbwynt hwn, gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r cynnydd hyd yma yng nghyswllt adfer o'r Coronafeirws.

O'r 42 mesur perfformiad chwarterol oedd yn asio ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data am 34 mesur lle'r oedd statws perfformiad yn gymwys. Neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 50% (17) mesur, statws Oren i 17% (6) a statws Coch i 33% (11). Nid oedd data ar gael ar gyfer 8 mesur chwarterol oherwydd y camau ail-flaenoriaethu a gymerwyd mewn ymateb i effaith y pandemig COVID-19. Nid oedd statws perfformiad yn gymwys i 107 o fesurau gan gynnwys nifer o ddangosyddion blynyddol (89) a'r rhai oedd yn sefydlu perfformiad gwaelodlin am y flwyddyn (18).

O ran yr 11 mesur a gafodd statws perfformiad Coch yn ystod y Chwarter, yr oedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at 54% (6) yn methu'r targed.

Yng nghyswllt y gweithgareddau cynlluniedig yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant, neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 100% (100 o 100). O'r 4 mesur chwarterol yr adroddwyd amdanynt, neilltuwyd statws perfformiad Gwyrdd i 40% (2) were attributed a statws Coch i 60% (3). O ran y 3 mesur a gafodd statws Coch, roedd effaith COVID-19 wedi cyfrannu at fethu'r targed.

Yr oedd yr adroddiad am i'r Aelodau etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch1 a'r camau y bwriadwyd eu cymryd i ymdrin â meysydd lle bu tanberfformio. Wedi ystyried, argymhellwyd i'r Pwyllgor Craffu gyfeirio eu barn ac unrhyw argymhellion at y Cabinet i'w hystyried.

Wedi ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.
- (3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Sicrhau bod aelodau'n parhau i oruchwylio'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgor Craffu perthnasol.